**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Mark Drakeford AC
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

14 Ionawr 2019

Annwyl Mark

**Dehongli Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin**

Yn dilyn llythyr blaenorol y Prif Weinidog ar 7 Rhagfyr 2018, mae nifer o faterion ynglŷn â'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn dehongli Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 y byddem yn ddiolchgar pe baech yn eu hegluro ymhellach.

Mae'r llythyr yn nodi:

"Ni ellir defnyddio'r pŵer galluogi yn y Ddeddf Ymadael i gyflwyno polisïau newydd, ond gellir ei ddefnyddio i fynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir."

Mae'n mynd rhagddo i ddweud "Nid yw hwn yn bolisi newydd fel y cyfryw, ond yn gywiriad angenrheidiol i fynd i'r afael â diffyg a fyddai'n codi fel arall. ".

Yn yr adran o dan y pennawd "Defnyddio Pwerau Cydamserol yn y Bil Ymadael", mae'r cytundeb rhynglywodraethol yn nodi na fydd Llywodraeth y DU yn defnyddio'i phwerau i roi polisïau newydd ar waith mewn meysydd datganoledig, ond yn hytrach mai pwerau at ddiben effeithlonrwydd gweinyddol fydd y rhain. Mae hyn yn awgrymu y gellir deddfu i gyflwyno polisïau newydd drwy ddefnyddio'r

pwerau i gywiro diffygion o dan Ddeddf 2018, fel y gwna Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018, y cyfeiriwn ato yn ein llythyr cyntaf ac sy'n nodi newid amlwg yn y polisi.

Yn ein barn ni:-

yr hyn y mae Deddf 2018 yn ei wneud yw atal y Llywodraeth rhag cyflwyno polisi newydd nad yw'n ymwneud â chywiro diffygion yng nghyfraith yr UE sy'n codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE, ac

mae unrhyw newid mewn polisi gyfystyr â pholisi newydd (oni bai nad oes unrhyw ddewis o gwbl ynghylch sut y gellir rhoi'r newid ar waith).

Ar ben hynny, yn ôl natur y broses, i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE mae'n bosibl y byddai'n ofynnol gwneud penderfyniad polisi pendant. Er y gallai hyn, o safbwynt Llywodraeth Cymru, arwain at yr un penderfyniad polisi ag y bydd Llywodraeth y DU yn ei wneud, o dan delerau'r cytundeb rhynglywodraethol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflwyno ei reoliadau ei hun.

Er enghraifft, defnyddiodd Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 y pŵer i gywiro diffygion, ymhlith pethau eraill, i gyflwyno trefn adrodd newydd mewn perthynas â dŵr a llaid gwastraff trefol (gweler, er enghraifft, reoliad newydd 12A a fewnosodwyd yn Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994).

Roedd yn bosibl drafftio'r drefn adrodd newydd hon mewn nifer o wahanol ffyrdd, felly gwnaed penderfyniad polisi i ddrafftio'r drefn adrodd yn y modd y caiff ei osod allan yn y Rheoliadau. Yn ein barn ni, mae hyn gyfystyr â deddfu i gyflwyno polisi newydd ac, yn sicr, mae'n mynd y tu hwnt i effeithlonrwydd gweinyddol.

Rydym wedi ystyried yr enghraifft hon ymhellach ers i ni drafod y Rheoliadau hyn yn ein cyfarfod ar 7 Ionawr ac, oherwydd bod y Rheoliadau yn rhoi polisi newydd ar waith, rydym wedi dod i'r casgliad mai Gweinidogion Cymru ddylai eu gwneud, yn unol â pharagraff 8 y memorandwm i'r cytundeb rhynglywodraethol.

Byddem yn falch o gael eich sylwadau ar y pwyntiau uchod ac, fel rhan o'r sylwadau hynny, eglurhad o ystyr paragraff 8 y memorandwm i'r cytundeb rhynglywodraethol sy'n ymwneud â defnyddio pwerau cydredol.

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.